Cyngor Tref Caerfyrddin
Carmarthen Town Council

DATGANIAD I'R WASG - PRESS RELEASE

NADOLIG YNG NGHAERFYRDDIN

Mae Cyngor Tref Caerfyrddin yn gweithio'n agos gydag arweinwyr busnesau i sicrhau bod y dref yn barod ar gyfer y Nadolig ac i helpu i wneud siopa ac ymweld â'r dref yn ystod cyfnod y Nadolig yn un mor ddiogel â phosib. Mae'r Siambr Fasnach a'r Ardal Gwella Busnes (AGB), ynghyd â busnesau a masnachwyr unigol a'u cynrychiolwyr wedi bod yn paratoi rhaglen o weithgareddau Nadolig, ac mae nifer o fentrau yn cael eu hystyried. Gobeithio bydd y gweithgareddau Nadoligaidd hyn yn caniatáu i bobl i ymweld â'r dref i wneud eu siopa mewn niferoedd mwy diogel dros gyfnod o amser ychydig yn hirach.

Bydd y goleuadau Nadolig yn cael eu cynnau gan Faer Caerfyrddin, y Cynghorydd Gareth John, drwy seremoni rithwir a fydd yn cael ei ddarlledu ar-lein dydd Gwener, 30ain o Hydref, sawl wythnos yn gynharach nag arfer i wneud lan am y siom fod yna ddim seremoni 'cynnau goleuadau' na phared y ceirw yn y dref eleni. Ymhlith y syniadau sy'n cael eu datblygu mae:

- Cystadleuaeth ffenest ar thema'r Nadolig – gwahoddir pob siop a busnes i gymryd rhan yn hyn - ac mae'r Siambr Fasnach a'r AGB yn darparu gwobr ariannol sylweddol.
- Fe ddarperir adloniant stryd bob penwythnos yn ystod y cyfnod yn arwain lan at y Nadolig.
- Calendr yr Adfent Ar-lein - gwahoddir siopau a busnesau i gymryd rhan drwy greu fideo eu hunain am yr hyn y byddant yn ei wneud dros gyfnod y Nadolig. Yna bydd rhain yn cael eu dosbarthu ar draws amryw o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol sydd wedi cael eu defnyddio yn eang ac yn effeithiol gan nifer of siopau a masnachwyr yn ystod y pandemig.
- Groto Siôn Corn - Mae arweinwyr busnesau yn datblygu 'profiad rhithwir Groto Siôn Corn' a fydd ar gael yn ystod y cyfnod yn arwain lan at y Nadolig, fel y gall plant fwynhau'r profiad hynod boblogaidd o 'gwrdd' a Siôn Corn er gwaethaf cyfyngiadau Covid 19.

- Fe fydd y thema ‘Caerfyrddin yn Garedig’ yn cael ei ddefnyddio i hyrwyddo’r dref ac i helpu denu pobl i’r ardal. Bydd mwy o wybodaeth am hyn yn cael ei ddarparu i fusnesau a masnachwyr yn ystod yr wythnosau nesaf.

Dywedodd Maer Caerfyrddin, y Cynghorydd Gareth John ‘Yn amlwg bydd y Nadolig yn wahanol ym mhobman eleni. Yr her i ni yw darparu gymaint o’r gweithgareddau Nadolig arferol mewn ffordd wahanol a fydd yn parhau i apelio at bobl a’u helpu i ddeall bod canol tref Caerfyrddin yn ddiogel iddynt ymweld ag ef’.

‘Mae Caerfyrddin yn parhau i fod yn brif gyrchfan siopa i bobl sydd yn byw ledled Gorllewin Cymru ac rydym am i bobl i barhau i fwynhau'r profiad o siopa yng Nghaerfyrddin mewn amgylchedd diogel. Mae’r awdurdodau lleol, Siambr Fasnach Caerfyrddin a AGB Caerfyrddin yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi’r busnesau lleol a helpu rhagolygon economaidd hir dymor canol tref Caerfyrddin’.

Alun J Harries
Clerc, Cyngor Tref Caerfyrddin – Clerk, Carmarthen Town Council

ajharries@carmarthentowncouncil.gov.uk

12 Hydref 2020

Cyngor Tref Caerfyrddin
Carmarthen Town Council